

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP

HYSBYSIR TRWY HYN yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) a'r Côt Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Y Felin, Ynyswen, Felinfoel, Llanelli, SA14 8BE o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg a hynny o 1 Medi 2022 ymlaen. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar [Dudalen Ymgynghoriad Ysgol Y Felin](#)

Cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn **6 Chwefror 2022**, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig hwn. Dylid cyflwyno gwrthwynebiadau drwy: gwblhau'r [arolwg ar-lein](#) anfon e-bost at RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk neu anfon llythyr at Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB.

Llofnod: Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin

Dyddiedig: 10 Ionawr 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad – yn hytrach fe'i cynigir er mwyn eglurder)

1. Bwriad yr Awdurdod yw newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Y Felin, o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg.

Mae dogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru "Diffinio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg" yn nodi disgrifiadau a chategoriâu o ysgolion yn ôl faint o Gymraeg a ddefnyddir wrth addysgu a dysgu. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad canlynol:

[Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg](#)

2. Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw newid yn achos natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Bydd y newid arfaethedig yn digwydd o

1 Medi 2022 ymlaen a bydd ond yn effeithio ar ddisgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol o'r dyddiad hwn ymlaen.